

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:	Comisiynydd y Gymraeg
Sefydliad (os yw'n berthnasol):	Comisiynydd y Gymraeg
E-bost / rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	post@cyg-wlc.cymru

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os hoffech inni gadw'ch ymateb yn ddiennw, ticiwch yma:

CWESTIWN 1: Ydych chi'n cytuno y dylid paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar sail ranbarthol, gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol? Os nad ydych chi, rhowch eich rhesymau.

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno
X ond gweler isod	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nid oes gennym wrthwynebiad i'r bwriad y dylid paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Nodir yn 2.8 y ddogfen Cod Ymarfer a Chanllawiau bod adran 144B Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad sy'n cynnwys:

- asesiad o ddigonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir;
- unrhyw fater arall sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio fel y rhagnodir gan reoliadau;
- ac effaith yr awdurdod yn comisiynu unrhyw wasanaethau mewn cysylltiad â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol ar y swyddogaethau hynny.
- Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y cyfnod dan sylw yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 189(2) o Ddeddf 2014, i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolion os bydd darparwr wedi methu gwneud hynny.

Ein dehongliad yw y dylai'r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ystyried gwasanaethau Cymraeg mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau uchod. Os bydd yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn cyflawni hynny mewn modd ystyrlon a fydd yn arwain at sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol Cymraeg ar gael i bobl sydd angen derbyn y gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yna credwn y byddai gwerth mewn paratoi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Gweler ein hymatebion i gwestiynau eraill y

ddogfen hon ac yn benodol cwestiwn 8 yn hynny o beth.

CWESTIWN 2: Ydych chi'n cytuno y dylid cynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd ochr yn ochr â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth? Os nad ydych chi, pa drefniadau eraill byddech chi'n eu cynnig, a pham?

Cytuno x Gweler isod	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
----------------------------	---	--	---------------------------------------

Credwn ei bod yn synhwyrol cynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd ochr yn ochr â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth cyhyd ag y bo'r asesiadau hynny, ac felly'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn arwain at sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol Cymraeg ar gael i bobl sydd angen derbyn y gwasanaethau hynny yn y Gymraeg.

CWESTIWN 3: Ydyn ni wedi nodi'r holl faterion allweddol y mae angen eu cynnwys mewn adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Os oes materion eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys, rhowch fanylion.

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno X Gweler isod	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Mae Atodlen 1 y rheoliadau yn nodi'r materion y mae angen eu cynnwys yn yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Mae hyn yn cynnwys;

- digonolrwydd y gwasanaethau a ddarperir
- ansawdd cyffredinol y gwasanaethau hynny,
- tueddiadau cyfredol neu sy'n datblygu,
- heriau sylweddol
- effaith comisiynu a chyllido ar swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Nid oes cyfeiriad yn y rheoliadau hyn at wasanaethau Cymraeg. Credwn bod angen ystyried y Gymraeg yn rhan o bob un o'r materion hyn ac y dylid gwneud cyfeiriad penodol at hyn yn y rheoliadau. Cynnwys yr angen i roi ystyriaeth lawn i wasanaethau cymdeithasol Cymraeg yn Atodiad 1 yw'r unig ffordd o sicrhau y rhoddir ystyriaeth wirioneddol i'r Gymraeg yn yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Dylid cynnwys arweiniad manwl ar hynny yn y cod a'r canllawiau fel yr amlinellwn isod.

Rhoddir rhagor o wybodaeth yn Cod Ymarfer a Chanllawiau am y pum mater uchod ac fe nodir yn ogystal yn 3.37 y ddogfen bod rhaid 'i awdurdodau lleol asesu digonolrwydd y gofal a'r cymorth a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn erbyn proffil cymunedol y Gymraeg a sefydlwyd yn ystod yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried sut gallai tueddiadau nawr neu yn y dyfodol yn y farchnad ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio effeithio ar ddarparu gofal a chymorth i'r gymuned Gymraeg, yn ogystal

ag unrhyw heriau a risgiau a nodwyd, ac effaith penderfyniadau comisiynu a chyllido awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.’ Tra ein bod yn cymeradwyo’r angen i wneud hyn, rydym yn credu bod angen i’r cod ymarfer a’r canllawiau gynnwys llawer mwy o arweiniad ynghylch sut mae asesu digonolrwydd y gofal o safbwynt gwasanaethau Cymraeg gan gynnwys sylw i ansawdd y gofal a’r graddau y mae’n diwallu’r angen a sut y mae’n cwrdd â’r canlyniadau llesiant o safbwynt y Gymraeg. Yn wir dylai’r cod a’r canllawiau gynnwys arweiniad o safbwynt y Gymraeg ar gyfer pob un o’r materion uchod y mae gofyn i’r adroddiad gyfeirio ato.

CWESTIWN 4: Ydych chi’n cytuno y dylid adolygu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a’u diwygio yn ôl yr angen, ond o leiaf ar ganol y cylch pum mlynedd? Os nad ydych chi, pa drefniadau monitro ac adolygu eraill byddech chi’n eu cynnig, a pham?

Cytuno X Gweler ein sylwadau isod	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
---	---	--	---

Byddai’n rhesymol adolygu’r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn rheolaidd a’u diwygio yn ôl yr angen er mwyn ymateb i newidiadau mewn angen. Er hynny, hoffem nodi rhai materion mewn perthynas â llunio, monitro ac adolygu’r adroddiadau hyn. Nodir yn 5.1-5.54 y ddogfen Cod Ymarfer a Chanllawiau beth yw’r drefn ar gyfer cytuno a chyflwyno’r adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gan nodi y bydd y byrddau partneriaeth yn eu cymeradwyo cyn eu cyflwyno er cymeradwyaeth i’r awdurdodau lleol unigol. Bydd yr adroddiadau yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru adeg eu cyhoeddi.

Buasem yn eich annog i nodi yn y cod ymarfer a chanllawiau bod gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg ac y byddai disgwyl felly i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hwythau weithredu yn unol â’r safonau y mae disgwyl i’w haelodau gydymffurfio â hwy. Buasem yn disgwyl felly i’r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad a’r asesiad o anghenion y boblogaeth gael eu llunio o fewn cyd-destun gofynion y safonau hyn gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i’r safonau llunio polisi, y safonau cyflenwi gwasanaethau a’r safonau gweithredu perthnasol.¹

Nid oes eglurder yn y Cod Ymarfer a Chanllawiau beth yw rôl Gweinidogion Cymru o safbwynt monitro ac adolygu addasrwydd a chyflawniad yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad. Os nad yw Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn ddigonol, hoffem wybod pa fecanweithiau fydd yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ym marn Gweinidogion Cymru. Yn benodol wrth gwrs, rydym yn gofyn i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn addas o safbwynt yr ystyriaeth a roddir i ddigonolrwydd ac ansawdd gwasanaethau Cymraeg.

CWESTIWN 5: Yn eich barn chi, ydy’r cod ymarfer drafft yn taro’r

¹ Gweler y safonau perthnasol i’r byrddau Iechyd a’r awdurdodau lleol yn hysbysiadau cydymffurfio’r cyrff hyn ar wefan Comisiynydd y Gymraeg <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Pages/ChwilioSafonau.aspx>

cydbwysedd iawn rhwng yr hyn mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud a'r hyn sydd yn ôl eu disgresiwn? Oes unrhyw ofynion neu ganllawiau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill o wella'r ddogfen?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Nid oes gennym safbwynt am hyn, ond dylwn dynnu eich sylw at ein hymateb i gwestiwn 5 uchod lle'r ydym yn nodi bod angen i'r canllawiau nodi bod rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg, gan gynnwys pan fônt yn gweithredu fel aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

CWESTIWN 6: Yn eich barn chi, ydy'r canllawiau statudol drafft yn nodi'n glir y dull partneriaeth y dylai awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ei fabwysiadu wrth baratoi eu hadroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad? Oes unrhyw ofynion neu ganllawiau eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu hychwanegu, neu ffyrdd eraill o wella'r ddogfen?

Cytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i gytuno <input type="checkbox"/>	Tueddu i anghytuno <input type="checkbox"/>	Anghytuno <input type="checkbox"/>
------------------------------------	---	--	---------------------------------------

Dylai'r canllawiau statudol bwysleisio'r ffaith bod rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg, gan gynnwys pan fônt yn gweithredu fel aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

CWESTIWN 7: Yn eich barn chi, beth fydd effaith ein cynigion ar ddyletswyddau cyrff cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu ar ddyletswydd awdurdod lleol o dan Ddeddf 2014 i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, neu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn?

CWESTIWN 8: Byddem yn hoffi clywed eich barn am effaith ein cynigion ar gyfer yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Mewn egwyddor gwelwn y gallasai cynhyrchu adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd ochr yn ochr â'r asesiadau o anghenion y boblogaeth arwain at wella gwasanaethau Cymraeg a thrwy hynny effeithio yn gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn benodol i dderbyn gofal yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, yn ymarferol, ac ar sail yr hyn y gwyddom am yr ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg o fewn yr asesiadau o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd yn 2017, rydym yn amheus a fydd hyn yn digwydd mewn gwirionedd oni fydd y cod ymarfer, y canllawiau a'r disgwyliadau yn cael eu cryfhau o safbwynt y disgwyliadau a roddir ar fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol o safbwynt y Gymraeg wrth gynhyrchu asesiadau o'r boblogaeth ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad fel ei gilydd. Nododd adroddiad Canolfan Iechyd y Boblogaeth ar werthusiad o adroddiadau asesu anghenion y boblogaeth (Evaluation of Local Authority Population Needs Assessment Reports²): 'some issues with Welsh language service provision were highlighted – most notably in the North Wales report. It is interesting to note that reference to Welsh language services was not always highlighted through each regional report as this was explicitly part of the guidance issued by the Act.' Mae'r canfyddiad hwn yn ategu ein canfyddiadau ninnau o edrych ar nifer o'r asesiadau hyn o'r boblogaeth. Yn ei hanfod felly, ar draws yr holl asesiadau a gyflwynwyd prin oedd yr ystyriaeth gwirioneddol a roddwyd i wasanaethau Cymraeg gan y byrddau partneriaeth rhanbarthol yn 2017, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiadau ardal dilynol. Mae hyn yn dangos diffyg ar ran byrddau partneriaeth rhanbarthol, y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol. Mae hefyd yn arddangos diffyg o safbwynt y disgwyliadau a wneir ohonynt gan Weinidogion Cymru a'r dull o fonitro ac arolygu cynnwys yr asesiadau hynny. Oni fydd yr asesiadau o'r boblogaeth yn ddigonol ac yn addas o safbwynt y Gymraeg rydym yn amheus iawn y bydd yr adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn gallu bod yn werthfawr o gwbl o safbwynt cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Ddiwedd 2020 gofynnwyd inni fel Comisiynydd ddarparu tystiolaeth mewn achos diweddar yn erbyn awdurdod lleol yn y Llys Gwarchod oedd yn ymwneud ag asesiadau galluedd yn y Gymraeg ac effaith hynny ar brofiadau cleifion o dderbyn gwasanaethau. Gydag amodau penodol mae'r Llys Gwarchod wedi caniatáu inni rannu penderfyniad y llys i ofyn i bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am allu eu staff i gynnal asesiadau yn y Gymraeg. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am wybodaeth drylwyr am anghenion ieithyddol y boblogaeth er mwyn gallu cynllunio i ddarparu gofal addas ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Ym mis Medi 2020 yn ogystal cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Cymru adolygiad cenedlaethol o gartrefi gofal i bobl sy'n byw gyda dementia.³ Canfu'r adroddiad enghreifftiau o arfer da mewn sawl man, fodd bynnag mae'n nodi

'Gwelsom bobl sy'n siarad Cymraeg mewn cartrefi lle nad oedd unrhyw staff a oedd yn siarad Cymraeg nac unrhyw weithgareddau nac adnoddau Cymraeg. Mae llai na hanner y cartrefi gofal yn darparu gwasanaeth dwyieithog a byddai'n

² <https://ncphwr.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Local-Authority-Population-Assessment-Reports-FINAL.pdf> (adroddiad Saesneg yn unig)

³ https://arolygiaethgofal.cymru/adolygiad-cenedlaethol-o-gartrefi-gofal-i-bobl-syn-byw-gyda-dementia?_ga=2.141413106.176066087.1606222879-428815351.1586445275

ymddangos nad yw llawer o gartrefi gofal yn nodi pobl sy'n siarad Cymraeg. Gallai hyn fod yn niweidiol i bobl y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg ac amharchu eu hawliau unigol.' (tud.6)

Yn ein tyb ni, petai'r asesiadau o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd yn 2017 wedi rhoi sylw addas i'r Gymraeg ni fuasem yn disgwyl y byddai Arolygiaeth Gofal Cymru wedi canfod y sefyllfaoedd uchod. Nid oes gennym wybodaeth gyffelyb ddiweddar am brofiadau siaradwyr Cymraeg y mae gofyn i'r asesiadau o anghenion y boblogaeth roi sylw penodol iddynt (plant a phobl ifanc; pobl hŷn; iechyd / anabledau corfforol; anabledd dysgu / awtistiaeth; iechyd meddwl; nam ar y synhwyrâu; gofalwyr y mae angen cymorth arnynt; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol). Gan mai prin iawn yw'r ystyriaeth i'r Gymraeg drwyddi draw yn yr asesiadau o'r boblogaeth a gyhoeddwyd yn 2017, mae'n peri inni orfod gofyn i ba raddau y mae'r sefyllfa lawer gwell o safbwynt gwasanaethau Cymraeg cyfredol yn y meysydd hynny hefyd? Ddiwedd 2020 yn ogystal gofynnwyd inni fel Comisiynydd ddarparu tystiolaeth yn achos P yn erbyn Cyngor Powys yn y Llys Gwarchod (achos 13603289) oedd yn ymwneud ag asesiadau galluedd yn y Gymraeg ac effaith hynny ar brofiadau cleifion o dderbyn gwasanaethau. Gydag amodau penodol mae'r Llys Gwarchod wedi caniatáu inni rannu penderfyniad y llys i ofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am allu eu staff i gynnal asesiadau yn y Gymraeg. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am wybodaeth drylwyr am anghenion ieithyddol y boblogaeth er mwyn gallu cynllunio i ddarparu gofal addas ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Mae i hyn oblygiadau difrifol ar sawl ystyr. Yn y man cyntaf mae'n peri pryder gwirioneddol inni nad yw pobl mewn gwendid yn derbyn gofal addas ac o ansawdd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'u hanghenion, gan arwain fel yr adroddodd Arolygiaeth Gofal Cymru at sefyllfaoedd a all fod yn niweidiol iddynt gan amharchu eu hawliau fel siaradwyr Cymraeg. Yn ail, os nad yw'r asesiadau yn ddigonol o safbwynt yr angen am wasanaethau Cymraeg sut mae modd profi bod angen gwella sgiliau iaith a chynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod gweithlu digonol i fedru darparu'r gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg? Yn drydydd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydymffurfio â safonau gweithredu sy'n cynnwys asesu sgiliau Cymraeg eu gweithlu ac ystyried anghenion ieithyddol pob swydd cyn ei hysbysebu. Os nad oes gan yr awdurdodau lleol wybodaeth ddigonol am anghenion gofal eu poblogaeth sut yn wir y mae modd iddynt asesu yn ddigonol anghenion ieithyddol swyddi gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau gan eraill? Rydym yn aml fel Comisiynydd y Gymraeg yn clywed bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd fel ei gilydd yn dweud nad oes modd iddynt recriwtio siaradwyr Cymraeg, ond os oes diffyg tystiolaeth o angen mewn dogfennau strategol o'r math hwn, nid oes modd cynllunio a hyfforddi'r gweithlu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ymgeisio am y swyddi hynny.

Mae ysgolion Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru yn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg, ac mae disgyblion mewn ysgolion Saesneg yn meddu ar beth sgiliau Cymraeg. Mae'r rhain yn bobl sydd yn aml yn colli eu sgiliau a'u hyder i ddefnyddio'r iaith oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd i siarad yr iaith yn y gweithle. Mae cyfle euraid yn cael ei golli yn y fan hon i ddarganfod gwir anghenion y gweithlu gofal o safbwynt y

Gymraeg a sicrhau dilyniant gyfaol i'r bobl hyn. Byddai hyn yn mynd gryn bellter i gyflawni amcanion Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal⁴ sy'n nodi 'Byddwn yn datblygu gweithlu a all ddiwallu anghenion iechyd a gofal pobl drwy gyfrwng y Gymraeg' oherwydd 'mae tystiolaeth o ganlyniadau clinigol gwell, a chanlyniadau i bobl sy'n cael gafael ar ofal a chymorth, yn tynnu sylw at y pwyslais hanfodol yr ydym yn ei roi ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn iaith Cymru.'

Nid yw asesu faint o bobl sy'n siarad Cymraeg mewn ardal benodol yn unig yn ddigonol wrth asesu anghenion y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Rhaid wrth ddull llawer mwy soffistigedig o ragweld lle, sut, pryd, beth a phwy sydd â'r anghenion hynny.

Argymhellwn felly eich bod yn gwneud y canlynol:

- Cynnal adolygiad o'r ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg yn yr asesiadau o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd yn 2017 a'r cynlluniau ardal dilynol gan ystyried yn benodol sut y byddai modd cryfhau'r canllawiau statudol yn ymwneud ag asesiadau o'r boblogaeth a chynlluniau ardal o safbwynt tystiolaeth o anghenion y boblogaeth am wasanaethau Cymraeg
- Cryfhau'r canllawiau statudol yn ymwneud â chynlluniau ardal neu gyhoeddi canllawiau statudol ychwanegol ynghylch sut y dylai partneriaethau gwasanaethau rhanbarthol ystyried y Gymraeg yn eu hasesiadau o anghenion.
- Cryfhau'r arweiniad a roddir yn y cod ymarfer a'r canllawiau drafft ar gyfer yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn sgil hynny.
- Cryfhau dull Gweinidogion Cymru o fonitro cyflawniad y gofynion hyn o safbwynt y Gymraeg mewn perthynas ag asesiadau o anghenion y boblogaeth ac adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad fel ei gilydd.
- Sicrhau bod arweiniad addas o safbwynt y Gymraeg ar gyfer llunio'r cynlluniau ardal a gyhoeddi ym mis Ebrill 2023.
- Cynnal adolygiad o'r asesiadau o anghenion y boblogaeth, yr adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a'r cynlluniau ardal newydd o safbwynt angen a darpariaeth Gymraeg erbyn diwedd 2023 gyda golwg ar gryfhau ymhellach y canllawiau o safbwynt y Gymraeg os bernir bod angen gwneud hynny.

CWESTIWN 9: Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig ar adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gweler ein hymateb i gwestiwn 8.

⁴ <https://aagic.gig.cymru/files/strategaeth-gweithlu-are-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol/>

CWESTIWN 10: O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Hoffem wybod i ba raddau yr ydych yn credu y bydd ein cynigion yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy a nodir yn y Ddeddf honno.

Ceir rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yma: <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

Gweler ein hymateb i gwestiwn 8.

CWESTIWN 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.